



Pecyn Croeso TAR Drama: 2019-20

Annwyl fyfyrwr TAR mewn drama,

Croeso i'r rhaglen TAR Uwchradd mewn Drama a llongyfarchiadau ar ennill eich lle!

Yn barod ar gyfer y flwyddyn brysur a chyffrous sydd i ddod, cwblhewch y tasgau isod sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i baratoi ar gyfer y cwrs. **Ewch ati i gwblhau'r tasgau erbyn 31 Awst 2019.**

1) CADARNHEWCH EICH LLE

Pan gewch y pecyn hwn, anfonwch e-bost ataf yn ethayer@cardiffmet.ac.uk er mwyn cadarnhau y byddwch yn dechrau gyda ni ym mis Medi 2019.

2) HUNANASESWCH EICH GWYBODAETH PWNC

Edrychwch ar y rhestr o gynnwys cyffredin pwnc drama yn Atodiad A ac ewch ati i hunanasesu faint rydych yn ei wybod am bob un o'r pynciau. Nid rhestr gynhwysfawr yw hon ond casgliad o gynnwys cyffredin o fanylebau TGAU / Ôl-16 y DU. Mae'r cynnwys mewn print trwm yn arloesol a dylid ei flaenoriaethu wrth wella eich gwybodaeth am y pwnc. Y ffordd fwyaf amlwg o wneud hyn yw darllen deunydd ar y pwnc (naill ai drwy'r llyfrgell neu'r rhyngwyd) ond mae mynd i weld cynrychiadau o ddramâu neu waith priodol gan ymarferwyr priodol yn amlwg yn ffordd arall werthfawr o wneud hyn. Mae YouTube yn ffordd arall ddilys o gael ymdeimlad o arddull/ffurf perfformiad, ond dylid sicrhau bod y fideos y byddwch yn eu gwyllo yn cynnwys deunydd proffesiynol a dibynadwy.

Darllenwch drwy'r rhestr a byddwch yn onest gyda chi'ch hun. Pan fyddwch yn dechrau'r cwrs TAR mewn Drama, gofynnir i chi gwblhau archwiliad pwnc, felly bydd y gwaith a wnewch nawr o gymorth i chi yn ddiweddarach.

3) GWNEWCH RYWFAIN O WAITH DARLLEN

E.e. ewch ati i ddarllen y canlynol:

- Capel, S., Leask, M. a Turner, T. (2016) *Learning to teach in the Secondary School*, 7^{fed} argraffiad. Llundain: Routledge.
- Kyriacou, C. (2009) *Effective teaching in schools: theory and practice*, 3^{ydd} argraffiad. Cheltenham: Nelson Thornes.
- Muijs, D. a Reynolds, D. (2017) *Effective teaching: evidence and practice*, 4^{ydd} argraffiad. Llundain: Sage.

Darllenwch am addysgu drama, e.e.

- Anderson, M. (2012) *Masterclass in Drama Education*. Llundain: Continuum.
- Fleming, M. (2017) *Starting Drama Teaching*. 4^{ydd} argraffiad. Rhydychen: Routledge.

4) PORWCH AMBELL WEFAN / PODLEDIAD

Rhowch gynnig ar y gwefannau a'r podlediau canlynol; byddant yn ddefnyddiol iawn i chi yn ystod y rhaglen:

- **Teaching Drama** (cylchgrawn addysgu drama a gyhoeddir bob hanner tymor):
<https://www.rhinegold.co.uk/rhinegold-publishing/magazines/teaching-drama/>

- **Research in Drama Education: The Journal of Applied Theatre and Performance** (mynediad am ddim ar ôl i chi gofrestru ar y cwrs): <https://www.tandfonline.com/loi/crde20>
- **Drama Resource** (gwefan yr ymgymghorydd drama, David Farmer): <https://dramaresource.com/>
- **Cyngor Celfyddydau Cymru** (Dysgu creadigol drwy agenda'r celfyddydau): <https://creativelearning.arts.wales/cy/clta-hafan>
- **Manylebau TGAU ac UG/Safon Uwch Drama CBAC:** https://www.wjec.co.uk/qualifications/drama/?language_id=2
- **Cwricwlwm Newydd i Gymru:** <https://llyw.cymru/cwricwlwm-gymru-2022>
- **Podlediad TAR Emma a Tom** (a gyflwynir gen i ar y cyd â Tom Breeze, Arweinydd y Rhaglen PGCE mewn Cerddoriaeth): <https://podcasts.apple.com/gb/podcast/emma-toms-pgce-podcast/id1428879037>
- **Podlediad Trialled & Tested** (Podlediad newydd y Sefydliad Gwaddol Addysgol): <https://educationendowmentfoundation.org.uk/news/podcast/>

5) EWCH ATI I ARSYLWI AR WERSI DRAMA

Os oes modd, ceisiwch gael rhywfaint o brofiad yn arsylwi / helpu mewn adran ddrama mewn ysgol uwchradd. Dylech ganolbwyntio ar yr hyn sy'n arbennig am amgylchedd yr ystafell ddosbarth drama a sut mae'r athro'n hwyluso dysgu'r disgyblion. Mae'n bosibl y cewch gyngor defnyddiol cyn dechrau'r rhaglen a fydd yn fuddiol i chi pan fyddwch chi'n dechrau addysgu!

Pob lwc gyda'r tasgau hyn. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ym mis Medi!

Gobeithio y cewch chi wyliau haf braf,



Emma Thayer
Arweinydd y Rhaglen

Atodiad A: Cynnwys Cyffredin Pwnc Drama

GENRES/CYFNODAU	YMARFERWYR	CWMNIAU CYFOES
<p>Canoloesol Commedia dell'Arte Dwyreiniol Meloddrama Mynegiadaeth Almaenig Naturiolaeth y 19^{eg} Ganrif Pantomeim Prydeinig ar ôl y Rhyfel Theatr Affricanaidd Theatr Asiaidd Theatr Epig Theatr ffeminyddol/protest Theatr Hen Roeg Theatr yr Abswrd Yr Adferiad Y Dadeni</p>	<p>Antonin Artaud Pina Bausch Steven Berkoff Augusto Boal Bertolt Brecht Peter Brook Edward Gordon Craig Declan Donnellan Marianne Elliott Dario Fo Rupert Goold Jerzy Grotowski Keith Johnstone Eddie Ladd Mike Leigh Jacques Lecoq Robert Lepage Joan Littlewood Vsevolod Meyerhold Katie Mitchell Erwin Piscator Emma Rice Konstantin Stanislavsky Julie Taymor Polly Teale Robert Wilson</p>	<p>1927 Arad Goch Dirty Protest DV8 Earthfall Forced Entertainment Frantic Assembly Hijinx Joint Stock Kneehigh National Theatre Wales Paines Plough Punchdrunk Red Ladder Shared Experience Splendid Theatre Tara Arts Talawa Theatre Theatre de Complicite Theatr Iolo Trestle Theatre Volcano Theatre</p>
<p>Meysydd gwybodaeth, sgiliau neu ddealltwriaeth</p>	<p>Confensiynau drama yn yr ystafell ddosbarth a strategaethau archwiliadol</p>	<p>DRAMODWYR</p>
<p>Rheoli llwyfan Dylunio a gweithredu goleuadau llwyfan Dylunio a gweithredu sain Dylunio setiau Dylunio a gwneud gwisgoedd Defnyddio cyfarpar fideo/amlygrwng Ymladd llwyfan Gwneud a defnyddio mygydau Gwneud a defnyddio pypedau</p>	<p>Theatr Fforwm Ffrâm fferru Cadair goch Byrffyfyrion Mantell yr arbenigwr Meimio a symud Monolog / ymson Theatr gorfforol Seinlun Sbotoleuadau Tablo Olrhain meddyliau Rôl ar y wal Athro mewn Rôl (TiR)</p> <p>Dyma adnodd gwych a luniwyd gan Patrice Baldwin, arbenigwr ym maes addysgeg drama, a allai eich helpu gyda'r uchod: https://patricebaldwin.files.wordpress.com/2015/08/drama-strategies-and-conventions-booklet-2.pdf</p>	<p>Dylech o leiaf edrych ar fanylebau TGAU ac UG / Safon Uwch CBAC i weld testunau gosod ac ymglyfarwyddo â theitlau anhysbys.</p> <p>*Dylech ddilyn y dolenni a ddarperir yn y prif lythyr i gael mynediad at fanylebau CBAC.</p>